# Ysgol Edern

Lôn Rhos,
Edern,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 8YW

01758 720272
llan.williams@edern.ysgoliongwynedd.cymru
www.ysgoledern.org
@YsgolEdern
/YsgolEdern


## Strolio mewn i'r gwyliau!

20.03.24

Hanner tymor arall wedi fflio heibio! Rydym wedi cael 5 wythnos prysur a dyrys arall yma yn Ysgol Edern.
Mae pawb wedi gweithio yn andros o galed yn blant, rhieni a staff - mae pawb yn barod am egwyl haeddiannol!



Dyma'r criw fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Roedd pawb wedi gwneud yn wych, gyda'r Parti Llefaru a'r Parti Unsain yn dod yn ail yn y Cylch. Diolch o galon i Mrs Hughes a Mrs Owen am fod wrthi mor gaeld yn eu dysgu, ac i'r plant am roi o'i gorau pob amser! Roedd hi'n braf cael dathlu eu llwyddiant a gweld eu perfformiadau gwerth chweil yn ystod ein prynhawn Cawl a Chân, i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn unwaith eto, gyda pawb yn mwynhau ambell i gân a llond cwpan o gawl cartref.



Cafodd dosbarthiadau Rhosgor a Porth Ysgaden amser i baratoi'r cawl blasus gyda Mrs Owen a Mrs Lloyd ar gyfer y prynhawn. Diolch o galon i gwmni Gwynedd Disposables o Bwllheli am y rhodd o gwpanau papur, ac i chi rieni a thrigolion y pentref am ddod i'n cefnogi.







Cofiwch y gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgol trwy ein gwefan, a'n gwefannau cymdeithasol. Dyma ambell i ddyddiad pwysig ar gyfer yr hanner tymor nesaf!
Cliciwch yma i weld y calendr llawn.

| | |
|---|---|
| **08/04/24** | **HMS** |
| **09/04/24** | **Ysgol yn ail-agor** |
| **12/04/24** | **Nofio yn parhau** |
| **2-28/04/24** | **Wythnos Awyr Agored** |
| **24/04/24** | **Platiad efo'r Plantos** |
| **29/04/24-01/05/24** | **Llangrannog Blwyddyn 5** |
| **06/05/24** | **Gŵyl y Banc** |
| **22/05/24** | **Platiad efo'r Plantos** |

*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*

# YMWELIADAU AC YMWELWYR

## Coleg y Bala

Cafodd dosbarth Rhosgor fynd ar ymweliad i Goleg y Bala'r hanner tymor yma. Yn dilyn eu gwaith ar hanes y Pasg, bu i Anti Nia a'r criw roi chwip o sioe iddynt yno! Bu iddynt gael hanes y swpar olaf a hanes yr atgyfodiad.







## Caerdydd



Cafodd Blwyddyn 6 (a Mr Williams) amser gwych yng Nghaerdydd! Cafwyd cyfleoedd i fynd i'r Stadiwm, ar y gwch gyflym, o amgylch y BBC, Bowlio Deg a llawer mwy.
Un o'r prif uchafbwyntiau oedd cael mynd i'r Senedd, a gweld Mark Drakeford a Mabon ap Gwynfor, a'r holl barau o 'wellingtons' tu allan i gefnogi ffermwyr Cymru. Braf oedd cael cyfarfod plant eraill o ysgolion cyfagos, a gwneud ffrindiau newydd! Mae'n saff dweud roedd pawb wedi blino'n lân am weddill yr wythnos!









## Nyrs Nel





Daeth Nyrs Nel draw i ddosbarth Porthdinllaen. Bu yn siarad am ei gwaith ac yn mynd trwy'r hyn mae yn ei wneud pob dydd. Roedd y plant yn byrlymu gyda chwestiynau i Nyrs Nel, a phawb eisiau cyfle i gael *bandij* ar eu braich! Diolch yn fawr Nyrs Nel am ddod i'w hysbrydoli!



## Pethau Bychain

Yn dilyn ein prynhawn Cawl a Chân, penderfynodd y plant y buasai'n neis rhannu'r blodau oedd fel addurn, o gwmpas y pentref i'r trigolion. I ffwrdd â dosbarth Rhosgor o gwmpas y pentref i rannu cennin pedr. Fu i chi ddod o hyd i rai tybed?







Cofiwch, gallwch weld mwy o luniau ar wefan yr ysgol!

*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*

STROLIWCH A ROLIWCH BIG WALK AND WHEEL
11–22 Mawrth/March 2024
YN DATHLU 15 MLYNEDD
CELEBRATING 15 YEARS

Gwych yw gweld cymaint yn cerdded, sgwtera a beicio draw i'r ysgol dros y bythefnos ddiwethaf! Nid yn unig y plant sydd wedi bod wrthi - ond mae'r rhieni hefyd, sydd yn wych! Fel mae'n sefyll, am 11:30 ar ddydd Mercher, 19eg o Fawrth mae:

**219** o siwrneiau wedi cael eu gwneud.

**56.63%** yw'r nifer cyfartalog sy'n cerdded, beicio neu sgwtera!

**204** ein safle cyffredinol yn yr her.

Mae hyn yn wych! Mae'r plant wedi bod wrth eu bodd yn cymryd rhan yn y sialens, ac pawb yn dweud eu bod yn teimlo yn fwy effro yn cyrraedd yr ysgol.

Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod wrthi hefyd dros yr wythnosau diwethaf. Llwyddwyd i gael rhodd o gwpannau gan gwmni Gwynedd Disposables, a llwyddwyd hefyd i gynnal diwrnod gwisgo dillad ein hunain i gasglu arian tuag at high-vizes newydd ar gyfer y Bydis Buarth. Casglwyd dros £100 tuag at yr achos!
Yn ogystal â'r Cyngor Ysgol, mae'r Cyngor Eco wedi bod wrthi'n ddiwyd hefyd yn helpu trefnu bythefnos Stroliwch a Roliwch, ac wrthi'n paratoi'n brysur at ein wythnos awyr agored fis nesaf.




# DIWRNOD y Llyfr

Roedd pawb wedi ymdrechu ar gyfer Diwrnod y Llyfr eleni. Roedd pawb wedi gwisgo fel cymeriad o'i hoff lyfr (gan gynnwys y staff!) Roedd llwyth o Harry Potters, Archarwyr, Anifeiliaid a pob math o gymeriadau eraill! Pwy ydych chi'n eu hadnabod yn y lluniau yma?




Ebrill
9

Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ar ddydd Mawrth, 9fed o Ebrill. Mwynhewch eich gwyliau haeddiannol!

Diolch yn fawr,
**Ilan Williams**
(Pennaeth Mewn Gofal)

*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*